



Ein cyf/Our ref: DNS/3279559 – qA2233057

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mena van der Vyver  
Uwch Gynllunydd – Asesu Amgylcheddol a Chymdeithasol  
SLR Consulting Limited  
3ydd Llawr, Summit House  
12 Red Lion Square  
Llundain  
WC1R 4QH

E-bost: [mvandervyver@slrconsulting.com](mailto:mvandervyver@slrconsulting.com)

18 o Fawrth 2025

Annwyl Mena van der Vyver

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 –ADRAN 62D  
RHEOLIADAU DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (CYMRU) 2016  
CAIS GAN SHOTTON MILL LIMITED AR GYFER DATBLYGIAD ARFAETHEDIG  
CYFLEUSTER GWRES A PHÂWER CYFUNEDIG YN YMWNEUD AG AILODDATBLYGU  
AC EHANGU MELIN BAPUR SHOTTON. CAPASITI CYNHYRCHU'R CYFLEUSTER  
GWRES A PHÂWER CYFUNEDIG FYDD 69MW.  
MELIN BAPUR SHOTTON, WEIGHBRIDGE ROAD, PARC DIWYDIANNOL GLANNAU  
DYFRDWY, CEI CONNAH, SIR Y FFLINT, CH5 2UL**

#### CYFEIRNOD Y CAIS: DNS/3279559

1. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arolygydd a archwiliodd y cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).
2. Yn unol ag adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliad 3 Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016, cyflwynwyd y cais i Weinidogion Cymru ar gyfer penderfyniad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales](mailto:Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae copi o adroddiad yr Arolygydd (IR) wedi'i amgáu. Mae'r holl gyfeiriadau at rifau paragraffau yn ymwneud ag adroddiad yr Arolygydd, oni nodir yn wahanol.

## Y Prif Ystyriaethau

- Mae'r Arolygydd yn nodi bod effeithiau'r adeilad a fyddai'n lletya'r cyfleuster gwres a phŵer cyfunedig arfaethedig ac ailddatblygu safle Melin Bapur Shotton yn ehangach wedi cael eu hystyried a bod Cyngor Sir y Fflint wedi canfod eu bod yn dderbyniol, yn ddarostyngedig i amodau, trwy roi caniatadau cynllunio. Felly, mae arfarniad yr Arolygydd wedi'i gyfyngu'n bennaf i asesu effeithiau gosod peiriannau ac offer mewnol, er hynny'n rhai mawr iawn. (IR 47)

## Effaith weledol y staciau arfaethedig

- Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal ddiwydiannol bresennol a amgylchynir gan ddiwydiant trwm. Mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r cynnig yn cael ei weld yn y cyd-destun hwn, y byddai'n gydnaws â'i amgylchedd a'i fod yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint. (IR 48-49)

## Ecoleg

- Nid yw'r safle'n cynnwys unrhyw asedau a ddynodwyd yn ecolegol. Mae llwybrau effaith posibl ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) cyfagos trwy lygredd aer, sŵn a dŵr. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Cyngor yn fodlon, yn ddarostyngedig i fesurau sydd i'w sicrhau trwy amod, na fyddai effaith niweidiol ar safleoedd dynodedig. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â Pholisi EN6 "Safleoedd o Bwysigrwydd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth" y CDLI. (IR 50)
- O ystyried yr effeithiau arwyddocaol tebygol posibl ar safleoedd Ewropeaidd, mae'r Arolygydd wedi cynnal Asesiad Priodol, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd). Daw'r Asesiad Priodol i'r casgliad, yn seiliedig ar amgylchiadau'r achos ac yn amodol ar sicrhau mesurau lliniaru, ei bod y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol na fyddai'r cyfleuster gwres a phŵer cyfunedig, naill ai'n unigol neu ar y cyd â phrosiectau eraill, yn cael effaith niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd. (IR 50, Atodiad B)
- Mae'r Arolygydd yn nodi bod gwelliannau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni trwy Gynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol (LEMP) a sicrheir trwy amod a osodwyd ar ganiatâd cynllunio blaenorol a roddwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol. (IR 51)

## Diogelwch ar y Priffyrdd

- Mae'r Arolygydd yn fodlon bod y rhwydwaith ffyrdd yn gallu ymdopi â'r datblygiad a bod y datblygiad cyffredinol yn cynnwys mesurau teithio llesol. (IR 52)

## Perygl Llifogydd a Draenio

- Ategir y cais gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd ac mae'r Arolygydd yn fodlon bod canlyniadau posibl llifogydd wedi derbyn sylw yn briodol. (IR 53)

## Amodau Byw

- Mae'r Arolygydd yn fodlon na fyddai gweithredu'r cyfleuster gwres a phŵer cyfunedig yn cael effaith sylweddol ar amodau byw preswylwyr. Mae mesurau yn y Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylchedd (CEMP), sydd i'w sicrhau trwy amod cynllunio, yn darparu diogelwch yn ystod adeiladu. (IR 54)

## Amodau

- Mae'r Arolygydd yn fodlon bod yr amodau argymelledig yn bodloni'r profion yng Nghylchlythyr 16/14: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu. (IR 55 – 57)

## Casgliadau'r Arolygydd

- Mae Wrecsam a Glannau Dyfrdwy wedi'i dynodi'n Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol ac yn ganolbwyt ar gyfer twf economaidd strategol. Mae Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol ac mae'r datblygiad arfaethedig yn cefnogi uchelgeisiau lleol a chenedlaethol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy. Mae'r Arolygydd o'r farn, er ei fod yn ddatblygiad mawr yn ddo'i hun, bod effeithiau'r cyfleuster gwres a phŵer cyfunedig arfaethedig yn dderbyniol neu'n fach ac yn cael eu lliniaru naill ai trwy'r dyluniad neu drwy osod amodau. (IR 58)

## Penderfyniad Gweinidogion Cymru

- Cytunaf ag arfaniad yr Arolygydd o'r prif ystyriaethau, casgliadau'r IR a'r rhesymeg sy'n sail iddynt, a derbyniaf yr argymhelliaid. Felly, rhoddaf ganiatâd cynllunio drwy hyn ar gyfer DNS/3279559, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr Atodiad i'r llythyr penderfyniad hwn.
- Derbyniaf a mabwysiadaf ganfyddiadau Asesiad Priodol yr Arolygydd ac rwyf yn fodlon bod Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod cymwys, wedi mynd i'r afael â gofynion perthnasol y Rheoliadau Cynefinoedd.
- Rwyf wedi ystyried y Datganiad Amgylcheddol a'r holl wybodaeth amgylcheddol arall a ddarparwyd wrth bwys o mesur y cais hwn, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf WFG)

- Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â'r Ddeddf WFG, gynnal datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i fodloni eu hamcanion llesiant.

18. Rwyf wedi ystyried i ba raddau y mae rhoi caniatâd cynllunio yn bodloni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Rwy'n cydnabod y bydd rhai effeithiau negyddol dros dro ar yr amgylchedd tra bydd y cyfleuster gwres a phŵer cyfunedig yn cael ei osod. Fodd bynnag, byddai'r effeithiau hyn yn cael eu lliniaru trwy'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CEMP) a'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) a byddent yn cael effaith negyddol gyfyngedig ar yr amcan i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.
19. At ei gilydd, byddai'r penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcanion i "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol" ac "Adeiladu economi gryfach a gwyrrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl". Mae effaith y penderfyniad hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral.
20. Wrth wneud fy mhenderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5(2) y Ddeddf WFG ac 'SPSF1: Canllawiau Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar y Ddeddf WFG'.

*Edrych tuag at yr hirdymor*

21. Byddai'r penderfyniad hwn yn cyfrannu tuag at leihau defnydd ynni'r diwydiant gweithgynhyrchu papur yng Nghymru ac yn cefnogi buddsoddiad economaidd mewn prosesau diwydiannol mwy cynaliadwy mewn Ardal Dwf Genedlaethol a gynlluniwyd.

*Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill*

22. O fewn fframwaith proses benderfynu statudol, a lywodraethir gan weithdrefnau rhagnodedig, roedd y cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, a roddodd gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae sylwadau a dderbyniwyd trwy'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar y cais hwn.

*Defnyddio ymagwedd integredig*

23. Mae'r penderfyniad wedi ystyried y cynllun datblygu a'r ffordd y mae'n integreiddio meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar draws graddfeydd gofodol. Mae hefyd wedi ystyried amcanion y sefydliadau sector cyhoeddus hynny a fu'n ymweud â'r broses ymgynghori sy'n dilyn eu hamcanion llesiant eu hunain o dan y Ddeddf WFG, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

*Atal*

24. Mae'r penderfyniad yn ystyried yr angen i ddefnyddio llai o ynni ac yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio'r economi.

*Camau rhesymol*

25. Rwyf wedi ystyried p'un a fyddai'n rhesymol gwneud penderfyniad gwahanol, o ystyried dyletswydd llesiant Gweinidogion Cymru. Nodaf mai'r penderfyniad arall fyddai gwrthod rhoi caniatâd cynllunio i'r datblygiad. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar yr amcanion i "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol" ac "Adeiladu economi gryfach a gwyrrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl". Byddai effaith y

penderfyniad arall hwn ar yr amcanion eraill yn niwtral. O ganlyniad, rwy'n ystyried bod y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Jayne Bryant".

**Jayne Bryant AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai  
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

## **ATODIAD**

### **Amodau - DNS/3279559**

1. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

Rheswm: I gydymffurfio â gofynion Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael ei gynnal yn unol â'r cynlluniau canlynol:

- Shotton-EXCHP-001 Cynllun Safle Presennol
- Shotton-LPCHP-001 Cynllun Lleoliad
- Shotton-PPCHP-001 Cynllun Safle Arfaethedig
- 28597 4-43 Gosodiad Cyffredinol y Safle
- Shotton-CHP-001/R.01 Adeilad Boeler Gwres a Phŵer Cyfunedig/Cynllun Llawr
- Shotton-CHP-002/R.01 Adeilad Boeler Gwres a Phŵer Cyfunedig/Cynllun To
- Shotton-CHP-003/R.01 Adeilad Boeler Gwres a Phŵer Cyfunedig/Trawsluniau
- Shotton-CHP-005/R.01 Adeilad Boeler Gwres a Phŵer Cyfunedig/Gweddu Gogledd a De
- Shotton-CHP-004/R.01 Adeilad Boeler Gwres a Phŵer Cyfunedig/Gweddu Dwyrain 1 a Dwyrain 2
- Shotton-CHP-006/R.01 Adeilad Boeler Gwres a Phŵer Cyfunedig/Gweddu Gorllewin a Gorsaf Bwmpio
- Shotton-ST-002 Gosodiad Pibellau Gwacáu ac Awyrellau
- Shotton-ST-003 Gosodiad Seilwaith Cyfleustodau
- Shotton-ST-004 Gosodiad Tanddaear
- Shotton-ST-005 Toriadau Hydredol Deheuol a Gogleddol
- Shotton-ST-006 Toriadau Hydredol Gogleddol, Deheuol a Gorllewinol
- 278A-1-1 Simnai Ddur

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r cynlluniau, y lluniadau a'r dogfennau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r cais.

3. Ni chaiff gwaith adeiladu ddigwydd y tu allan i 08.00 o'r gloch i 18.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener a 08.00 o'r gloch i 13.00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn ac ni chaiff ddigwydd o gwbl ar ddydd Sul na Gwyliau Cyhoeddus.

Rheswm: I ddiogelu amodau byw preswylwyr cyfagos yn unol â Pholisi EN18 y CDLI.

4. Ni chaiff unrhyw waith datblygu na chlirio safle ddigwydd hyd nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y CEMP yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: I ddiogelu bioamrywiaeth ac amodau byw preswylwyr cyfagos yn unol â Pholisiau EN 6 ac EN18 y CDLI.

- Ni cheir dechrau gosod y cyfleuster Gwres a Phŵer Cyfunedig a ganiateir drwy hyn hyd nes bod Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y CTMP yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: Er mwyn diogelwch ar y priffyrdd yn unol â Pholisi PC 5 y CDLI.

## **Hysbysiad am ddechrau datblygiad ac arddangos hysbysiad**

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau yn adran 71ZB (hysbysiad am ddechrau datblygiad ac arddangos hysbysiad: Cymru) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys y canlynol:

### **Hysbysiad am ddechrau datblygiad**

Cyn dechrau unrhyw ddatblygiad y mae'r caniatâd Cynllunio hwn yn ymwneud ag ef, mae'n rhaid hysbysu'r awdurdod Cynllunio lleol ar y ffurf a amlinellir yn Atodlen 5A Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sylwedol debyg. Mae'r ffurf yn amlinellu'r manylion y mae'n rhaid eu rhoi i'r awdurdod Cynllunio lleol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

### **Arddangos hysbysiad**

Maer'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal datblygiad y mae'r caniatâd Cynllunio hwn yn ymwneud ag ef arddangos, yn y man lle mae'r datblygiad yn cael ei gynnal neu'n agos iddo, bob amser tra'i fod y cael ei gynnal, hysbysiad o'r caniatâd Cynllunio hwn ar y ffurf a amlinelir yn Atodlen 5B Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 neu ar ffurf sylwedol debyg. Mae'r ffurf yn amlinellu'r manylion y mae'n rhaid 'r sawl sy'n cynnal y datblygiad eu harddangos i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cynnal y datblygiad sicrhau bod yr hysbysiad:

- (a) yn cael ei osod yn soud a'i arddangos mewn man amlwg yn y man lle mae'r datblygaid yn cael ei gynnal neu'n agos iddo;
- (b) yn ddarllenadwy ac yn hawdd i'r cyhoedd ei weld heb orfod mynd i mewn i'r safle; ac
- (c) yn cael ei argraffu ar ddeunydd gwydn. Dylai'r sawl sy'n cynnal y datblygaid gymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad (rhag cael ei symud ymaith ei guddio neu ei ddifwyno) ac, os bydd angen, ei amnewid.



Ein cyf/Our ref: DNS/3279559 – qA2233057

Mena van der Vyver  
Senior Planner - Environment & Social Assessment  
SLR Consulting Limited  
3rd Floor, Summit House  
12 Red Lion Square  
London  
WC1R 4QH

E-mail: [mvandervyver@slrconsulting.com](mailto:mvandervyver@slrconsulting.com)

18 March 2025

Dear Mena van der Vyver

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990 - SECTION 62D  
THE DEVELOPMENTS OF NATIONAL SIGNIFICANCE (WALES) REGULATIONS 2016  
APPLICATION BY SHOTTON MILL LIMITED FOR A PROPOSED DEVELOPMENT OF A  
COMBINED HEAT AND POWER (CHP) FACILITY RELATING TO REDEVELOPMENT  
AND EXPANSION OF SHOTTON PAPER MILL. THE GENERATION CAPACITY OF THE  
CHP FACILITY WILL BE 69MW.  
SHOTTON PAPER MILL, WEIGHBRIDGE ROAD, DEESIDE INDUSTRIAL PARK,  
CONNAH'S QUAY, FLINTSHIRE, CH5 2UL**

**APPLICATION REF: DNS/3279559**

1. Consideration has been given to the report of the Inspector who examined the Development of National Significance (DNS) application.
2. In accordance with section 62D of the Town and Country Planning Act 1990 and regulation 3 of the Developments of National Significance (Specified Criteria and Prescribed Secondary Consents) (Wales) Regulations 2016, the application was made to the Welsh Ministers for determination.
3. A copy of the Inspector's report (IR) is enclosed. All references to paragraph numbers, unless otherwise stated, relate to the IR.

### **Main Considerations**

4. The Inspector notes the impacts of the building that would house the proposed combined heat and power (CHP) plant and the wider redevelopment of the Shotton Paper Mill site have been considered and, subject to conditions, found acceptable by Flintshire County Council through the grant of planning permissions. Therefore, the

Inspector's appraisal is largely limited to an assessment of the impacts of the installation of internal, albeit very large, plant and equipment. (IR 47)

### **Visual impact of the proposed stacks**

5. The site is located in an existing industrial area surrounded by heavy industry. The Inspector considers the proposal would be viewed in this context, it would be in keeping with its surroundings and complies with relevant policies in the Flintshire Local Development Plan (LDP). (IR 48-49)

### **Ecology**

6. The site does not include any designated ecological assets. There are potential impact pathways on the Dee Estuary Special Area of Conservation (SAC), Special Protection Area (SPA) and Ramsar site, the River Dee and Bala Lake SAC and nearby Sites of Special Scientific Interest (SSSI) through air, noise and water pollution. However, the Inspector notes Natural Resources Wales (NRW) and the Council are satisfied, subject to measures to be secured by condition, there would be no adverse impact on designated sites. The Inspector is content the proposed development complies with LDP Policy EN6 "Sites of Biodiversity and Geodiversity Importance". (IR 50)
7. Given the potential likely significant effects on European sites the Inspector has undertaken an Appropriate Assessment (AA) as required by the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 (Habitats Regulations). The AA concludes, based on the circumstances of the case and subject to securing mitigation measures, it is beyond reasonable scientific doubt that the proposed CHP facility, either alone or in combination with other projects, would not have an adverse effect on European sites. (IR 50, Appendix B)
8. The Inspector notes biodiversity enhancement is delivered through a Landscape and Ecological Management Plan (LEMP) which is secured by a condition imposed on a previous planning permission granted by the local planning authority. (IR 51)

### **Highway Safety**

9. The Inspector is satisfied the road network has capacity to accommodate the development and the overall development includes active travel measures. (IR 52)

### **Flood Risk and drainage**

10. The application is supported by a Flood Consequences Assessment (FCA) and the Inspector is satisfied the potential consequences of flooding have been properly addressed. (IR 53)

### **Living Conditions**

11. The Inspector is content that operation of the CHP plant would not have a material impact on the living conditions of residents. Measures in the Construction and Environment Management Plan (CEMP), to be secured by planning condition, provide safeguards during construction. (IR 54)

## **Conditions**

12. The Inspector is content the recommended conditions meet the tests in Circular 16/14: The Use of Planning Conditions in Development Management. (IR 55 – 57)

## **Inspector's Conclusions**

13. Wrexham and Deeside is designated as a National Growth Area in Future Wales and is a focus for strategic economic growth. The Deeside Industrial Estate lies within the National Growth Area and the proposed development supports local and national ambitions for sustainable economic growth. The Inspector considers, although a major development in itself, the impacts of the proposed CHP are acceptable or minor and mitigated either through design or by the imposition of conditions. (IR 58)

## **Welsh Ministers' Decision**

14. I agree with the Inspector's appraisal of the main considerations, the conclusions of the IR and the reasoning behind them, and I accept the recommendation. Therefore, I hereby grant planning permission for DNS/3279559, subject to the conditions in the Annex to this decision letter.
15. I accept and adopt the findings of the Inspector's AA and am satisfied the Welsh Ministers, as competent authority, have addressed the relevant requirements of the Habitats Regulations.
16. I have taken the Environmental Statement and all other environmental information provided into account in the consideration of this application, as required by the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (England and Wales) Regulations 2017.

## **Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (WFG Act)**

17. The Welsh Ministers must, in accordance with the WFG Act, carry out sustainable development. This includes taking all reasonable steps to meet their well-being objectives.
18. I have considered the extent to which granting planning permission meets the Welsh Government's well-being objectives. I recognise there will be some temporary negative environmental effects during installation of the CHP plant. However, these impacts would be mitigated through the Construction Environment Management Plan (CEMP) and Construction Traffic Management Plan (CTMP) and they would have a limited negative effect on the objective of making our cities, towns and villages even better places in which to live and work.
19. Overall the decision would have a positive effect on the objectives to "Build an economy based on the principles of fair work, sustainability and the industries and services of the future" and "Build a stronger, greener economy as we make maximum progress towards decarbonisation". The effect of this decision on the other objectives is neutral.
20. In reaching my decision on the application, I have taken into account the ways of working set out in section 5(2) of the WFG Act and 'SPSF1: Core Guidance, Shared Purpose: Shared Future – Statutory Guidance on the WFG Act'.

*Looking to the long-term*

21. This decision would contribute towards reducing the energy consumption of the paper manufacturing industry in Wales and would support economic investment in more sustainable industrial processes in a planned National Growth Area.

*Involving people/Collaborating with others*

22. Within the framework of a statutory decision-making process, which is governed by prescribed procedures, the application was subject to publicity and consultation, providing the opportunity for public and stakeholder engagement. Representations received through these procedures have been considered and taken into account in making a determination on this application.

*Taking an integrated approach*

23. The decision has taken account of the development plan and its integration of economic, social and environmental strands across spatial scales. It has also taken account of the objectives of those public sector organisations involved in the consultation process which are pursuing their own well-being objectives under the WFG Act such as NRW.

*Prevention*

24. The decision takes account of the need to reduce energy consumption and supports the Welsh Government's policy objectives for decarbonising the economy.

*Reasonable steps*

25. I have considered whether, having regard to the Welsh Ministers' wellbeing duty, it would be reasonable to take a different decision. I note the alternative decision would be to refuse planning permission for the development. This would negatively impact on the objectives to "Build an economy based on the principles of fair work, sustainability and the industries and services of the future" and "Build a stronger, greener economy as we make maximum progress towards decarbonisation". The effect of this alternative decision on the other objectives would be neutral. Consequently, I consider the decision to grant planning permission subject to conditions is a reasonable step in meeting the Welsh Ministers' well-being objectives.

Yours sincerely



**Jayne Bryant AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai  
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

## **Annex. Conditions - DNS/3279559**

1. The development shall begin no later than five years from the date of this decision.

Reason: To conform with the requirements of Section 91 of the Town and Country Planning Act 1990.

2. The development hereby permitted shall be carried out in accordance with the following plans:

- Shotton-EXCHP-001 Existing Site Plan
- Shotton-LPCHP-001 Location Plan
- Shotton-PPCHP-001 Proposed Site Plan
- 28597 4-43 General Site Layout
- Shotton-CHP-001/R.01 Combined Heat and Power Boiler Building/Floor Plan
- Shotton-CHP-002/R.01 Combined Heat and Power Boiler Building/Roof Plan
- Shotton-CHP-003/R.01 Combined Heat and Power Boiler Building/Sections
- Shotton-CHP-005/R.01 Combined Heat and Power Boiler Building/North & South Elevations
- Shotton-CHP-004/R.01 Combined Heat and Power Boiler Building/East 1 & East 2 Elevations
- Shotton-CHP-006/R.01 Combined Heat and Power Boiler Building/West & Pump Station Elevations
- Shotton-ST-002 Exhausts and Vent Layout
- Shotton-ST-003 Utilities Infrastructure Layout
- Shotton-ST-004 Underground Layout
- Shotton-ST-005 South and North Longitudinals
- Shotton-ST-006 North, South and West Longitudinals
- 278A-1-1 Steel Chimney

Reason: To ensure that the development is carried out in accordance with the approved plans, drawings and documents submitted with the application.

3. Construction works shall not take place outside the hours of 08.00 hours to 18.00 hours Mondays to Fridays and 08.00 hours to 13.00 hours on Saturdays and at no time on Sundays or Public Holidays.

Reason: To safeguard the living conditions of nearby residents in accordance with LDP Policy EN18.

4. No development or site clearance shall take place until a Construction Environmental Management Plan (CEMP) has been submitted to, and approved in writing by, the Local Planning Authority. The CEMP shall be implemented in accordance with the approved details.

Reason: To safeguard biodiversity and the living conditions of nearby residents in accordance with LDP Policies EN 6 and EN18.

5. Installation of the CHP hereby permitted shall not commence until a Construction Traffic Management Plan (CTMP) has been submitted to and approved in writing by, the Local Planning Authority. The CTMP shall be implemented in accordance with the approved details.

Reason: In the interests of highway safety in accordance with LDP Policy PC 5.

## **Notification of initiation of development and display of notice**

You must comply with your duties in section 71ZB (notification of initiation of development and display of notice: Wales) of the Town and Country Planning Act 1990. The duties include the following:

### **Notice of initiation of development**

Before beginning any development to which this planning permission relates, notice must be given to the local planning authority in the form set out in Schedule 5A to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 or in a form substantially to the like effect. The form sets out the details which must be given to the local planning authority to comply with this duty.

### **Display of notice**

The person carrying out development to which this planning permission relates must display at or near the place where the development is being carried out, at all times when it is being carried out, a notice of this planning permission in the form set out in Schedule 5B to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 or in a form substantially to the like effect. The form sets out the details the person carrying out development must display to comply with this duty.

The person carrying out development must ensure the notice is:

- (a) firmly affixed and displayed in a prominent place at or near the place where the development is being carried out;
- (b) legible and easily visible to the public without having to enter the site; and
- (c) printed on durable material. The person carrying out development should take reasonable steps to protect the notice (against it being removed, obscured or defaced) and, if need be, replace it.